

Llun: David Shankbone

Cariad yn Trechu:

Uffern, Cariad Duw a Rob Bell

(Rhan 1)

Dafydd Job

Un o'r gwirioneddau mwyaf anodd ei ddeall yw hwnnw a grynhoir yn yr adnod fechan honno: 'Duw cariad yw.' Beth yw cariad Duw? Sut mae'n dod atom ni? Sut mae cysoni'r syniad o Dduw yn caru gyda'r sôn sydd yn y Beibl am Dduw yn barnu?

Yng Nghymru aed ati gan lawer i arddel y syniad fod Duw barn yn rhywbeth sy'n perthyn i gyfnod yr Hen Destament. Ond yna down wyneb yn wyneb â'r ffaith mai'r un sy'n sôn fwyaf yn y Testament Newydd am farn ac uffern yw'r Arglwydd Iesu Grist ei hun.

Cododd y cwestiynau hyn i'r amlwg yn ddiweddar gyda chyhoeddi llyfr dadleuol gan Rob Bell, *Love Wins*. Mae'r awdur yn weinidog ym Michigan a chafodd enw o fod yn gyfathrebwr heriol a chyfoes trwy gyfrwng ei lyfrau a chyfres ffilmiau *Nooma*. Wrth geisio siarad â'i oes ei hun mae fwy nag unwaith wedi gwthio'r ffiniau ynglŷn â beth yw'r efengyl. Yn y llyfr diweddaraf hwn mae'n awgrymu fod y ddealltwriaeth draddodiadol uniongred o uffern yn ddiffygiol, a bod yr eglwys ar fai yn y modd y mae wedi deall y Beibl, a phregethu cariad Duw.

Y cwestiwn mae'n ceisio ymgodymu ag o yw hyn: Sut mae cariad Duw yn llwyddo i gario'r dydd? Os oes yna uffern lle mae pobl yn dioddef yn dragwyddol, yna onid yw'r drwg wedi llwyddo? Os cariad sy'n ennill, yna oni ddylai pawb brofi'r cariad hwnnw? Onid yw'n anghyson sôn am Dduw cariad sy'n dial a chosbi?